| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **21 Chwefror 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad / Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad Busnes** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Cynllun Corfforaethol 2012-17 Adroddiad Gwaelodlin** |

## 1. Beth yw testun yr adroddiad?

1.1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno adroddiad gwaelodlin i'r Cynllun Corfforaethol 2012-17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. I alluogi Aelodau i drafod yr ystod o ddangosyddion a mesurau perfformiad sydd i'w defnyddio ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2012-17.

2.2. I alluogi Aelodau i drafod sefyllfa'r waelodlin i'r Cynllun Corfforaethol, h.y. y sefyllfa ar 1 Ebrill 2012.

2.3. I alluogi Aelodau i ddeall strategaeth y cyngor ar gyfer gosod "trothwyau rhagoriaeth" ac "ymyriadau" ar gyfer pob dangosydd a mesur perfformiad. Mae'r system hon yn galluogi'r cyngor i ddeall ein perfformiad o fewn cyd-destun ac os yw'r sefyllfa yn Sir Ddinbych yn "rhagorol", "derbyniol", neu'n "flaenoriaeth ar gyfer gwella".

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Aelodau'n ystyried, trafod a chynnig sylwadau ar yr adroddiad gwaelodlin i'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 sydd ynghlwm.

## 4. Manylion yr Adroddiad.

4.1. Mae'r adroddiad gwaelodlin yn cyflwyno sefyllfa'r Cynllun Corfforaethol ar 1 Ebrill 2012 (dechrau cyfnod y Cynllun Corfforaethol). Mae dealltwriaeth o'r sefyllfa'r waelodlin yn angenrheidiol er mwyn deall adroddiadau perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn y dyfodol. Bydd holl Adroddiadau Perfformiad Chwarterol yn y dyfodol, yn ogystal ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol y cyngor, yn cymharu'r sefyllfa gyfredol gyda'r waelodlin er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed o ran gwireddu deilliannau'r Cynllun Corfforaethol.

4.2. Ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar 9 Hydref 2012, mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion perthnasol ac

Aelodau Arweiniol i ddiffinio pa ddangosyddion a mesurau perfformiad i'w defnyddio i werthuso ein llwyddiant wrth geisio gwireddu pob un o'r blaenoriaethau corfforaethol newydd. Cynhaliwyd trafodaethau pellach i gytuno ar y "trothwyau rhagoriaeth" ac "ymyriadau" i bob dangosydd a mesur perfformiad.

4.3. Pwrpas adnabod trothwyau rhagoriaeth a lefelau ymyriad yw ein galluogi i ddeall perfformiad yn ei gyd-destun. Maen nhw'n caniatáu i'r cyngor ddeall pa mor dda yw'r sefyllfa gyfredol, yn hytrach na dweud yn unig os ydym wedi llwyddo i gyflawni targed penodol.

4.4. Nid bwriad y trothwy rhagoriaeth yw nodi lle y gallwn yn rhesymol ddisgwyl bod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol (neu hyd yn oed lle y gallwn ddisgwyl fod erbyn 2017), ond i nodi lle y byddai'n rhaid i ni fod er mwyn dweud ein bod wedi cyflawni **"rhagoriaeth".** Ar y pwynt hwn, byddai'r dangosydd neu'r mesur perfformiad yn cynhyrchu statws **GWYRDD**.

4.5. Mae'r lefel ymyriad yn hanfodol gan ei fod yn adnabod pryd bydd y sefyllfa yn dod yn **"flaenoriaeth ar gyfer gwella".** Mae ymyriadau felly yn cael eu gosod ar lefel lle byddai angen rhyw fath o ymyriad i newid cyfeiriad. Ar y pwynt hwn, byddai'r dangosydd neu'r mesur perfformiad yn cynhyrchu statws **COCH**.

4.6. Bydd y gwahaniaeth rhwng y trothwy rhagoriaeth a'r ymyriad yn ymrannu'n awtomatig yn ddwy adran i'n galluogi i ddeall achos lle nad yw'r statws yn "rhagoriaeth" nac ychwaith yn "flaenoriaeth ar gyfer gwella". I bob pwrpas, mae unrhyw beth sy'n uwch na'r ymyriad yn dderbyniol. Lle mae'r sefyllfa gyfredol dan y trothwy rhagoriaeth, ond yn agosach i'r trothwy rhagoriaeth na'r ymyriad, byddai hyn yn cynhyrchu statws **MELYN**, ac rydym yn diffinio hwnnw fel "**da**"**.** Lle mae'r sefyllfa dan y trothwy rhagoriaeth, ond yn agosach i'r ymyriad na'r trothwy rhagoriaeth, byddai hyn yn cynhyrchu statws **OREN**, ac rydym yn diffinio hwnnw fel **"derbyniol"**.

4.7. Fel y disgrifiwyd uchod, mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion perthnasol ac Aelodau Arweiniol i gytuno pa ddangosyddion a mesurau perfformiad y dylid eu defnyddio i'n Cynllun Corfforaethol. Er bod y gwaith hwn yn tynnu tuag at ei derfyn, mae angen peth gwaith pellach, yn arbennig yn ein blaenoriaethau "economaidd" a "moderneiddio". Rydym hefyd yn aros am ymchwil gan Brifysgol Glyndŵr er mwyn gallu cadarnhau'r dangosyddion ar gyfer y flaenoriaeth dai. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cabinet yn y dyfodol.

4.8. Mewn rhai achosion, yn enwedig gyda mesurau perfformiad na allwn eu meincnodi yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru, mae angen gwaith pellach i gytuno ar y trothwyau rhagoriaeth a'r ymyriadau. Unwaith eto,

bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'r Cabinet yn y dyfodol.

4.9. Mae'r cyngor wedi datblygu fframwaith ar gyfer gosod trothwyau rhagoriaeth ac ymyriadau i sicrhau bod y system yn gyson a chadarn. Er bod yn rhaid edrych ar bob dangosydd a mesur perfformiad ar sail unigol, mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi datblygu sefyllfa ddiofyn i drothwyau rhagoriaeth ac ymyriadau a chanllawiau ar gyfer senarios lle y byddwn, o bosibl, yn dymuno gwyro oddi wrth y sefyllfa ddiofyn (gweler paragraffau 4.10 – 4.12 am fanylion).

4.10. Mae bod yn y chwarter uchaf o gynghorau yng Nghymru yn golygu bod yn y sefyllfa ddiofyn o ran "rhagoriaeth", ac mae bod yn yr hanner isaf o gynghorau yng Nghymru yn golygu "blaenoriaeth ar gyfer gwella" (gweler tabl 1 isod). Fodd bynnag, gellir defnyddio grŵp meincnodi gwahanol os credir nad Cymru yw'r cymharydd gorau ar gyfer dangosydd neu fesur perfformiad penodol. Er enghraifft, i'r dangosyddion cyflwr ffyrdd cenedlaethol, mae'n bosibl y byddai'n fwy buddiol i ni feincnodi yn erbyn cynghorau sy'n gwasanaethu ardaloedd gyda chymysgedd tebyg o ffyrdd gwledig a threfol, nag i feincnodi yn erbyn Cymru gyfan, gan gynnwys Caerdydd, Abertawe, ayyb.

**Tabl 1**

| | |
|---|---|
| Chwartel Uchaf (Trothwy Rhagoriaeth) | Rhagorol |
| | Da |
| Canolrif (Lefel Ymyriad) | Derbyniol |
| Chwartel Isaf | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

4.11 Mae'n bosibl y byddwn yn penderfynu gwyro oddi wrth y trothwy rhagoriaeth ddiofyn mewn sefyllfaoedd lle mae ein sefyllfa eisoes yn gyson yn y chwartel uchaf, a'n bod yn dymuno gwelliant pellach. Hefyd, mae'r addasiad hwn yn ddefnyddiol lle mae trothwy'r chwartel uchaf i Gymru yn parhau i fod yn wael os ydym yn defnyddio cymaryddion ehangach (e.e. sector preifat, DU, Ewropeaidd neu wledydd eraill). Mae hyn yn berthnasol i'r senarios hynny lle na ellir ystyried bod yn y chwartel uchaf i Gymru yn "rhagorol", ond lle mae'n anodd meincnodi'n ehangach oherwydd gwahaniaethau yn nulliau casglu data a methodoleg cyfrifo. Y cynnig yn hyn o beth yw ein bod yn defnyddio'r sefyllfa o'r gorau yng Nghymru fel y trothwy rhagoriaeth (tabl 2, isod). Er enghraifft, rydym wedi penderfynu defnyddio'r "gorau yng Nghymru" fel y trothwy rhagoriaeth i gyrhaeddiad addysgol, gan fod Cymru yn cael ei hystyried yn berfformiwr gwael yn nhermau rhyngwladol.

**Tabl 2**

| | |
|---|---|
| Gorau yng Nghymru neu Grŵp Meincnodi (Trothwy Rhagoriaeth) | Rhagorol |
| Chwartel Uchaf | Da |
| Canolrif (Lefel Ymyriad) | Derbyniol |
| Chwartel Isaf | Blaenoriaeth ar gyfer Gwella |

4.11. Nid yw'n dilyn o reidrwydd y dylai perfformiad cyfredol yn y chwartel uchaf arwain yn awtomatig at yr addasiad a ddisgrifiwyd yn nhabl 2. Mae gwyro oddi wrth y sefyllfa ddiofyn i bob pwrpas yn benderfyniad polisi. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ddiofyn yn darparu dechreubwynt addas ar gyfer trafodaeth yn y rhan fwyaf o achosion, a chaiff y sefyllfa ddiofyn ei defnyddio oni bai bod rheswm dilys dros wyro.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw diffinio manylion ein Blaenoriaethau Corfforaethol. Mae'r gwaith o ddiffinio a chytuno ar ddangosyddion, mesurau perfformiad, trothwyau rhagoriaeth ac ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn i'r cyngor ddeall os yw'n cyflenwi'r blaenoriaethau hynny'n llwyddiannus.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn nodi faint o arian ychwanegol yr ydym yn anelu at ei wario ar bob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ac eithrio'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, tybir bod modd cyflenwi'r cynllun corfforaethol o fewn cyllidebau sy'n bodoli eisoes.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid sicrhau bod y templed EqIA a gwblhawyd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1. Cynhaliwyd EqIA ar y Cynllun Corfforaethol ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor pan fabwysiadwyd y cynllun ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen EqIA pellach i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Phwyllgorau Craffu ac eraill?**

8.1. Ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol ar 9 Hydref 2012, mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion perthnasol ac Aelodau Arweiniol i ddiffinio pa ddangosyddion a mesurau perfformiad i'w defnyddio i werthuso ein llwyddiant wrth wireddu'r blaenoriaethau corfforaethol newydd. Mae'r SLT wedi trafod a chymeradwyo'r cynnig cyffredinol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol**

9.1. Nid oes angen datganiad gan y Prif Swyddog Ariannol i'r adroddiad hwn.

**10. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Byddai peidio â dethol dangosyddion, mesurau perfformiad, trothwyau rhagoriaeth a lefelau ymyriad priodol yn arwain at adborth negyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Lythyr Gwella Blynyddol. Mae hyn yn cysylltu gyda risg DCC012 ar y Gofrestr Risg Corfforaethol: “y risg o adroddiad(au) negyddol iawn gan reolyddion allanol”. Mae'r Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad Busnes a Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol mewn trafodaethau cyson gyda Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ein cynnydd o ran datblygu fframwaith rheoli perfformiad i'r Cynllun Corfforaethol. Rydym wedi cael adborth anffurfiol positif gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch y cysyniad o “drothwyau rhagoriaeth”.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1. Nid yw'r papur hwn ar gyfer penderfyniad. Ei fwriad yw hybu trafodaeth ynghylch yr ystod o ddangosyddion a mesurau perfformiad i'w defnyddio i fonitro'r Cynllun Corfforaethol 2012-17.

11.2. Mae Erthygl 6.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod craffu ar y Cynllun Corfforaethol a rheoli perfformiad yn gyffredinol yn gorwedd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Perfformiad.

**Swyddog Cyswllt:** Rheolwr Gwella Corfforaethol Ffôn: 07825 451448